**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8146
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Europe.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Caiff y Pwyllgor drafod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ffordd y mae'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu'r Cynulliad yn arfer eu swyddogaethau o ran yr Undeb Ewropeaidd neu faterion allanol, ac adrodd ar y materion hynny.

### Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig Rheol Sefydlog 18.1. Mae'r rhain i'w cael yn **www.cynulliadcymru.org**

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Rhodri Morgan (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerdydd
Llafur



**Nick Bourne**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Plaid Geidwadol Cymru



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Jeff Cuthbert**
Caerffili
Llafur



**Rhodri Glyn Thomas**
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Plaid Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod ei fodolaeth:



**Christine Chapman**
Cwm Cynon
Llafur



**Nerys Evans**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Plaid Cymru



**Mike German**
Dwyrain De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**William Graham**
Dwyrain De Cymru
Plaid Geidwadol Cymru



**Gareth Jones**
Aberconwy
Plaid Cymru



**Val Lloyd**
Dwyrain Abertawe
Llafur



**David Melding**
Canol De Cymru
Plaid Geidwadol Cymru



**Sandy Mewies**
Delyn
Welsh Liberal Democrat

## Cynnwys

**Trosolwg – Bwrw Ati Mewn Modd Strategol ........ 7**

**Blaenoriaethau Gwaith 2007-2011 ........ 9**

Ymchwiliadau Craffu ........ 9

Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) ........ 9

Archwiliad Iechyd ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ........ 9

Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan ........ 9

Cytuniad Lisbon a Monitro Sybsidiaredd ........ 9

Cyfarwyddeb Ddrafft ar Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol ........ 11

Dyfodol Polisi Cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd ........ 11

Blwyddyn Ewropeaidd 2010 ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol ........ 13

Cyfranogiad Cymru yn rhaglenni'r UE ar gyfer ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes ........ 14

Blaenoriaethau Llywyddiaethau'r Undeb Ewropeaidd ........ 14

Aelodau Seneddol Ewropeaidd o Gymru a Chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau ........ 15

Swyddfa Ewropeaidd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel ........ 16

Materion allanol ........ 16

Dinasyddiaeth Fyd-eang ........ 17

Craffu ar waith y Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru ar Faterion Ewropeaidd ac Allanol ........ 17

Cysylltiadau â deddfwrfeydd eraill ........ 18

**Blaenoriaethau i'r Pedwerydd Cynulliad ........ 19**

Argymhellir y materion a ganlyn i graffu arnynt yn y Pedwerydd Cynulliad: ........ 19

Yr Undeb Ewropeaidd ........ 19

Cyllideb yr UE – Cynigion ar gyfer y Fframwaith Ariannol Amlflwydd o 2014 ........ 19

Y Polisi Cydlyniant ........ 19

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) .......... 20
Rhaglenni ariannu'r UE ar gyfer ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes .......... 20
Strategaeth Ewrop 2020 .......... 20
Monitro Sybsidiaredd .......... 21
Ymateb i Flaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd a ddaw i'r amlwg .......... 21
Materion Rhyngwladol ac Allanol .......... 22
Gwersi a Ddysgwyd a'r Arfer Gorau .......... 22
**Atodiad A: Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2011: Prif flaenoriaethau posibl ar gyfer Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad** 25

## Trosolwg – Bwrw Ati Mewn Modd Strategol

1. Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (y Pwyllgor) yn y Trydydd Cynulliad dan Reol Sefydlog Rhif 18, gyda'r cylch gwaith a ganlyn: "Caiff y Pwyllgor drafod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ffordd y mae Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu'r Cynulliad yn arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r Undeb Ewropeaidd neu faterion allanol, ac adrodd ar y materion hynny."

2. Cyfarfu'r Pwyllgor rhwng 13 ac 16 gwaith y flwyddyn yn ystod tair blynedd olaf y Trydydd Cynulliad. Cydnabyddai'r aelodau bwysigrwydd ymyrryd yng ngham cynharaf posibl datblygiad cynigion Ewropeaidd, a dewis pynciau ymchwiliad yn ôl eu harwyddocâd i Gymru, gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu arnynt a'r adnoddau a fyddai'n ofynnol ar gyfer craffu.

3. O fis Ionawr 2009, aeth y Pwyllgor ati mewn modd strategol i weithio o fewn pedair thema strategol:

- Craffu ar waith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys monitro sut y gweithredir deddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd, ei safbwynt ar gynigion newydd yr UE a'i safbwynt ar faterion allanol;
- Mynd ar drywydd cynigion strategol allweddol yr Undeb Ewropeaidd;
- Monitro cynigion deddfu Ewropeaidd penodol sydd ar y gweill, gan gynnwys goblygiadau sybsidiaredd;
- Deall a chyfranogi – gan gynnwys ymagwedd y Cynulliad Cenedlaethol tuag at gysylltiadau allanol.

Gyda'i gilydd, ac o'u gweithredu'n llwyddiannus, byddai'r camau hyn yn codi proffil materion Ewropeaidd a rhai ehangach.

4. Rhaglen waith flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd oedd y man cychwyn ar gyfer nodi'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau craffu. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai'n ceisio cydweithrediad Llywodraeth Cymru a/neu ddeddfwrfeydd eraill i archwilio memoranda esboniadol llywodraeth y Deyrnas Unedig am fuddiannau datganoledig a goblygiadau sybsidiaredd.

5. Mae dull y Pwyllgor o weithredu wedi'i alluogi i roi amlygrwydd mawr i faterion Cymreig ar lefel Ewrop, ac wedi darparu llwyfan i Aelodau etholedig a rhanddeiliaid yng Nghymru allu cyfrannu yng nghyfnod cynnar allweddol llunio polisïau er mwyn osgoi'r rhai anffafriol a hyrwyddo'r potensial cadarnhaol i Gymru. Mae hyn wedi cynnwys deialog uniongyrchol â sefydliadau Ewrop, gan gynnwys Comisiynwyr Ewropeaidd fel y Comisiynydd dros Raglennu Ariannol a'r Gyllideb.

# Blaenoriaethau Gwaith 2007-2011

**Ymchwiliadau Craffu**

***Banc Buddsoddi Ewrop (EIB)***

6. Yn 2007, ymchwiliodd y Pwyllgor i'r cyfleoedd a gynigir gan Fanc Buddsoddi Ewrop ar gyfer ariannu prosiectau seilwaith yng Nghymru, a'r gwersi y gellid eu dysgu oddi wrth ranbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth bellach gan yr EIB ym mis Mai 2010 ar offerynnau benthyg, fel rhan o'i ymchwiliad i ddyfodol y Polisi Cydlyniant.

***Archwiliad Iechyd ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)***

7. Ar 20 Mai 2008, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion i ddiwygio'r modd y gweithredir y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) am y cyfnod 2009-2013, fel rhan o'i 'Archwiliad Iechyd' ar y PAC. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd, y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn y Cynulliad, undebau'r ffermwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill, a mabwysiadodd adroddiad ym mis Hydref 2008.

***Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan***

8. Mae Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan (y Pwyllgor Monitro) yn gyfrifol am fonitro sut y gweithredir Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop) yng Nghymru. Darparodd Cadeirydd y Pwyllgor Monitro, Jeff Cuthbert AC, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, adroddiadau ffurfiol rheolaidd i'r Pwyllgor ar waith diweddaraf y Pwyllgor Monitro, gyda chefnogaeth swyddogion o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac aelodau'r Pwyllgor Monitro.

***Cytuniad Lisbon a Monitro Sybsidiaredd***

9. Monitrodd y Pwyllgor gynnydd y broses negodi tuag at Gytuniad Lisbon, a gadarnhawyd ym mis Rhagfyr 2009. Roedd diddordeb arbennig yn y protocol sybsidiaredd cryfach yn y Cytuniad, a gydnabyddai am y tro cyntaf rôl ffurfiol ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Undeb Ewropeaidd i 'seneddau rhanbarthol' fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymgymerodd y Pwyllgor ag ymchwiliad

Sybsidiaredd cyn i'r Cytuniad ddod i rym. Cymerwyd tystiolaeth gan Andrew Duff ASE, Ysgrifennydd Cyffredinol Pwyllgor y Rhanbarthau, y Comisiwn Ewropeaidd a Phrifysgol Caerdydd, a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Mawrth 2009.[1]

10. Ymateb cyntaf Llywodraeth Cymru oedd gwrthod yr argymhellion a ganlyn a wnaed gan y Pwyllgor:

> "make available in a timely manner all UK Government Explanatory Memoranda on European legislative and policy proposals of relevance to Wales"; a

> "…produce for the Committee a Welsh Assembly Government version of each Explanatory Memorandum, explaining its views on all new proposals that have devolved consequences and the implications they will have for Wales."

11. Daethpwyd i gytundeb wedyn ym mis Mai 2010 y byddai Llywodraeth Cymru'n darparu'r wybodaeth ofynnol i hwyluso rhan y Pwyllgor ym mhroses graffu ar ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Dechreuodd Llywodraeth Cymru anfon Memoranda Esboniadol terfynol yn cynnwys ei sylwadau ar faterion sybsidiaredd at y Cynulliad Cenedlaethol, ar yr un pryd ag yr oedd Llywodraeth Ei Mawrhydi'n darparu'r rhain i Senedd y DU. E-bostiwyd y Memoranda i fewnflwch a reolir gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, fel bod modd rhybuddio'r Pwyllgor(au) perthnasol ynghylch unrhyw bryderon ynglŷn â sybsidiaredd a allai godi.

12. Parhaodd y Pwyllgor i ystyried sut y gweithredwyd y 'system rhybudd cynnar' ar Sybsidiaredd drwy gydol 2010, gan gynnwys safbwynt Senedd y DU a'r dulliau gweithredu a gaiff eu mabwysiadu gan seneddau rhanbarthol eraill yn Ewrop.[2] Croesawodd y Pwyllgor y berthynas dda a oedd yn parhau rhwng staff Pwyllgorau Ewropeaidd deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig wrth gyfnewid gwybodaeth am faterion craffu. Yn ei gyfarfod olaf ar 22 Mawrth 2011, bu i'r Pwyllgor adolygu sut y caiff dulliau monitro Sybsidiaredd y Cynulliad eu gweithredu.

---

[1] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-eur-home/bus-committees-third-eur-report.htm

[2] EUR(3)-11-10: Papur 2

13. Fel rhan o adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad cyn dyfodiad y Pedwerydd Cynulliad, gofynnodd y Pwyllgor am gydnabyddiaeth i roi pwerau tebyg i bwerau Cyfarfod Llawn i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (neu'r hyn a fyddai'n cyfateb iddo yn y Pedwerydd Cynulliad) i gyflwyno sylwadau ffurfiol i Senedd y DU ar faterion sybsidiaredd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac am fabwysiadu gweithdrefn gydnabyddedig ar gyfer amgylchiadau brys neu eithriadol er mwyn ymdrin ag achlysuron pryd y byddai'r amserlen wyth wythnos ar gyfer ymgynghori'n cyd-daro â chyfnodau toriad y Cynulliad, hy ar gyfer dirprwyo swyddogaeth adrodd ar fater Sybsidiaredd i Gadeirydd y Pwyllgor cyfrifol. Ar 9 Tachwedd, cyfarfu Pwyllgor Busnes y Cynulliad yn gyhoeddus i ystyried y Rheolau Sefydlog ynghylch Busnes Pwyllgorau, a chytunwyd, *mewn egwyddor*, ar newidiadau arfaethedig yn y Rheolau Sefydlog i'r perwyl hwnnw. Cyflwynwyd adroddiad y Pwyllgor Busnes ar yr Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog ar 9 Mawrth, a chytunwyd ar y Rheolau Sefydlog newydd,[3] a ddaw i rym ar 5 Mai 2011, yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mawrth.

### *Cyfarwyddeb Ddrafft ar Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol*

14. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2009.[4] Roedd ei saith argymhelliad yn ymdrin â materion a oedd yn cynnwys awdurdodi ymlaen llaw, gwneud iawn â chleifion, a phwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ystyried nodweddion penodol y gyfundrefn iechyd ddatganoledig yng Nghymru. Cyflwynwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 30 Medi, yn rhoi sicrwydd bod safle Cymru'n cael ei ystyried wrth gynllunio ar gyfer trawsosod y Gyfarwyddeb derfynol. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Hydref 2009. Cafwyd adroddiadau diweddaru gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Swyddfa Ewropeaidd y Cynulliad.

### *Dyfodol Polisi Cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd*

15. Er nad oes gan y Pwyllgor gyfrifoldeb uniongyrchol dros graffu ar sut y cyflenwir Cronfeydd Strwythurol na'r telerau ar gyfer ymgymhwyso i gael cymorth ganddynt, ymunodd y Pwyllgor yn gynnar â'r ddadl ynghylch cyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi 2013 ac mae wedi

---

[3] Rheolau Sefydlog 21.8 – 21.11
[4] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-eur-home/eur_inquiries.htm

cynnal ymchwiliad parhaus, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2009. Roedd yr ymchwiliad hwn yn ymgorffori gwaith craffu ar ddatblygiad yr olynydd i Strategaeth Lisbon ar gyfer twf a swyddi, **Strategaeth Ewrop 2020,** ac **Adolygiad Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd.**

16. Cyflwynodd Christine Chapman AC, cynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, Farn ar ddyfodol Strategaeth Lisbon a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2009. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ar ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Strategaeth Lisbon. Yn sgil cyhoeddi'r strategaeth economaidd ddrafft EU2020 ar gyfer ymgynghori arno, ym mis Rhagfyr 2009, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at yr Arlywydd Barroso i fynegi pryder y Pwyllgor ynghylch y diffyg cydnabyddiaeth yn y strategaeth o rôl bwysig seneddau rhanbarthol fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a hefyd o bwysigrwydd Polisi Cydlyniant i'r Undeb Ewropeaidd yn ei gyfanrwydd.

17. Cyhoeddwyd yr adroddiad interim cyntaf ar ddyfodol y Polisi Cydlyniant ym mis Rhagfyr 2009[5] a chychwynnodd y Pwyllgor ar ail gyfnod o gasglu tystiolaeth o fis Mawrth 2010. Cyhoeddwyd ail adroddiad ym mis Gorffennaf 2010,[6] ynghyd ag adroddiad gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad ar y modd y mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol cyfredol 2007-2013 yn cael eu gweithredu yng Nghymru.[7]

18. Bu'r ymchwiliad yn destun cyfarfod ffurfiol a gynhaliwyd ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel ar Ddydd Gŵyl Ddewi, 1 Mawrth 2010, gyda thystiolaeth gan Aelodau Senedd Ewrop o Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol Senedd Ewrop, yr Athro Danuta Hübner ASE.

19. Gwnaed argymhellion i Lywodraeth Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop ac aelodau o gyrff a rhwydweithiau Ewropeaidd. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru egluro sut y byddai'n dadlau'r achos i Lywodraeth Glymblaid y DU dros barhau â Pholisi Cydlyniant ledled yr Undeb Ewropeaidd, hy dim 'ail-wladoli' cyllid Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fel rhanbarth sy'n methu o fewn Aelod

---

[5] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-eur-home/bus-committees-third-eur-report.htm
[6] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-eur-home/bus-committees-third-eur-report.htm
[7] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home.htm

Wladwriaeth 'gyfoethog', gyda hawl parhaus i gefnogaeth Cydlyniant i ranbarthau cymwys, a threfniadau ariannu pontio i ranbarthau sy'n gwella. Galwodd yr adroddiad hefyd am roi blaenoriaeth i hyfforddiant a sgiliau mewn pynciau 'STEM' (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), fel rhan o strategaeth ehangach i gyflawni amcanion ar lefel Cymru a'r Undeb Ewropeaidd o ran hyfforddiant sgiliau lefel uwch a chynyddu ymchwil a datblygu ac arloesi.

20. Dangosodd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 10 Tachwedd 2010 y lefel uchel o gonsensws o fewn Cymru ynglŷn â'r polisi i'r dyfodol. Ar 18 Ionawr 2011, cadarnhaodd swyddogion o Adran Fusnes, Arloesedd a Sgiliau'r DU a Thrysorlys Ei Mawrhydi mai safbwynt Llywodraeth y DU oedd peidio â gwrthwynebu cefnogaeth barhaus i ranbarthau tlotach Aelod Wladwriaethau mwy cyfoethog am y cyfnod ariannu 2014-2020, gan roi mwy o hyblygrwydd i Aelod Wladwriaethau o ran sut y cymhwysir y polisi. Roedd hyn hefyd yng nghyd-destun ymdrechion Llywodraeth y DU i gadw Cyllideb yr UE o dan reolaeth ac yn is na chwyddiant am y Persbectif Ariannol nesaf. Mae'r Pwyllgor yn argymell yn gryf y dylai'r 4ydd Cynulliad graffu ar y gwaith negodi ar gyllideb yr UE i'r dyfodol a'r elfennau ariannu o fewn iddi.

21. Dylid ystyried ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ddyfodol y Polisi Cydlyniant hefyd yng nghyd-destun gwaith cysylltiedig ar gyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ariannu eraill o eiddo'r UE,[8] ac ymchwiliadau gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ddiwygio'r PAC,[9] a gan y Pwyllgor Menter a Dysgu ar weithrediad Cronfeydd Strwythurol 2007-2013.

### *Blwyddyn Ewropeaidd 2010 ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol*

22. Edrychodd yr ymchwiliad hwn ar gyfranogiad Llywodraeth Cymru a sefydliadau Cymreig ym Mlwyddyn Ewropeaidd 2010 ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2010[10] ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Medi 2010. Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o'r argymhellion ar sicrhau etifeddiaeth

---

[8] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-eur-home/bus-committees-third-eur-report.htm
[9] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-rd-home.htm
[10] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-eur-home/bus-committees-third-eur-report.htm

gryf o'r Flwyddyn Ewropeaidd 2010 hon a chysylltu gweithgareddau â mentrau polisi sy'n bodoli eisoes yng Nghymru ar gyfer goresgyn tlodi ac allgau cymdeithasol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gais i gyflwyno adroddiad ar ei chynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys Blwyddyn Wirfoddoli Ewropeaidd 2011, ac i neilltuo amser ar gyfer dadl flynyddol ar bob Blwyddyn Ewropeaidd. Ar 8 Mawrth, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar weithgareddau 2010 a'r cynlluniau ar gyfer 2011.

### *Cyfranogiad Cymru yn rhaglenni'r UE ar gyfer ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes*

23. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad hwn ar y tair ffrwd ariannu fwyaf y tu allan i'r Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sef y Seithfed Rhaglen Ymchwil Fframwaith ar gyfer Ymchwil a Datblygu (FP7), y Rhaglenni Dysgu Gydol Oes a'r Rhaglen Fframwaith Cystadleurwydd ac Arloesedd (CIP). Ceisiodd y Pwyllgor ganfod faint o ymwneud â'r rhaglenni a ddaw o du Cymru, y rhwystrau a'r manteision, a darparu unrhyw argymhellion polisi. Cymerwyd tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, ac o'r sectorau addysg uwch, llywodraeth leol, busnes a'r trydydd sector. Penododd y Pwyllgor gynghorydd arbenigol, Dr Liz Mills, i roi cefnogaeth ychwanegol, a chyhoeddodd ei adroddiad ar 17 Chwefror 2010. Yr argymhellion allweddol oedd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei strategaeth ar gyfer cyfranogiad Cymru yn holl raglenni ariannu'r UE; gwella cyfatebolrwydd rhwng y gwahanol ffrydiau ariannu; ac edrych ar ba fodelau allai weithio orau i gynnal a 'brocera' cyfranogiad mewn prosiectau. Disgwyliad y Pwyllgor ar hyn o bryd yw y bydd Llywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa i ymateb cyn y Diddymiad. Bydd y Pwyllgor yn disgwyl i'r ymateb ganolbwyntio ar sut i gael mwy o sefydliadau i fabwysiadu arferion da sy'n bodoli eisoes yng Nghymru a rhoi sylw adferol arbennig i'r ardaloedd llai llwyddiannus yng Nghymru.

## Blaenoriaethau Llywyddiaethau'r Undeb Ewropeaidd

24. Prif orchwyl y wlad sy'n dal Llywyddiaeth Cyngor yr Undeb Ewropeaidd yw trefnu a rheoli gwaith y Cyngor, a chwarae rhan bwysig mewn negodiadau gyda sefydliadau eraill yr Undeb, yn enwedig Senedd Ewrop sydd, fel y Cyngor, yn gorff y mae'n rhaid iddo roi ei gydsyniad i'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth Ewropeaidd.

25. Mae'r Llywyddiaeth yn cylchdroi bob chwe mis, er mai o dan system 'driawd' newydd Cytuniad Lisbon y gwneir hynny. Hwngari sy'n dal y Llywyddiaeth ar hyn o bryd fel rhan o 'driawd' sydd hefyd yn cynnwys Sbaen a Gwlad Belg. Dyma'r tro cyntaf i dair llywyddiaeth gyflawni'u swyddogaethau'n unol â Chytuniad Lisbon. Bu'n arfer rheolaidd gan y Pwyllgor dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau pob Llywyddiaeth Ewropeaidd gan ei Lysgennad yn y DU. Ar 15 Chwefror 2011, daeth Llysgennad Hwngari yn y DU i gyfarfod y Pwyllgor i drafod y cynnydd a wnaed. Mae'r Pwyllgor cyn hyn wedi trafod blaenoriaethau Llywyddiaeth yr UE gyda Llysgenhadon Slofenia (Chwefror 2008); y Weriniaeth Siec (Chwefror 2009); Sweden (Gorffennaf 2009); Sbaen (Chwefror 2010); a Gwlad Belg (Hydref 2010). Bydd Gwlad Pwyl yn ymgymryd â'r Llywyddiaeth ym mis Gorffennaf 2011.

**Aelodau Seneddol Ewropeaidd o Gymru a Chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau**

26. Dywed Rheol Sefydlog Rhif 18.2 yn benodol:

> "Caniateir i Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y cadeirydd, cânt siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, ond ni chânt bleidleisio.."

27. Gwnaeth y Pwyllgor ymdrechion i gysylltu â'r ddau Aelod o Senedd Ewrop a phedwar cynrychiolydd Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau (enwebwyd dau ohonynt gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a dau gan y Cynulliad Cenedlaethol), sy'n cymryd agwedd 'Tîm Cymru' at eu gwaith ym Mrwsel.

28. Cafwyd adroddiadau diweddaru rheolaidd am weithgareddau Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau, a hynny'n fwyaf diweddar ar 1 Chwefror 2011. Bu'n anos yn hanesyddol ymwneud yn ffurfiol ag Aelodau Senedd Ewrop oherwydd gwrthdrawiadau rhwng busnes Senedd Ewrop a'r Cynulliad. Cymerodd Aelodau Senedd Ewrop o Gymru ran mewn cyfarfod ffurfiol ym Mrwsel ym mis Mawrth 2010, a chymerasant ran mewn cyfarfodydd yng Nghaerdydd drwy gyfrwng fideo-gynhadledd lle bu modd.

## Swyddfa Ewropeaidd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel

29. Mae Swyddfa Ewropeaidd y Cynulliad ym Mrwsel yn rhannu lleoliad â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol ac addysg uwch yn Nhŷ Cymru. Rhoddodd Pennaeth Swyddfa'r UE gyfarwyddyd rheolaidd i Aelodau ar gyfer pob cyfarfod Pwyllgor ffurfiol, ynghyd â chynhyrchu bwletin bob dau fis ar gyfer y cyhoedd, o dan yr enw 'Materion Ewropeaidd', yn rhoi sylw i holl weithgareddau'r Cynulliad sy'n ymwneud ag Ewrop. Rhoddodd Pennaeth Swyddfa'r UE gyfarwyddyd hefyd i'r Pwyllgor am y blaenoriaethau strategol sy'n codi o Raglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd, gan fonitro datblygiadau ar gynigion a materion arwyddocaol i Gymru, cynorthwyo'r Pwyllgor i ganfod tystion ar gyfer ei waith ymchwil a chyfranogi'n rheolaidd mewn cyfarfodydd.

## Materion allanol

30. Nododd gwaith strategol y Pwyllgor feysydd penodol ar gyfer craffu, gan gynnwys ymwneud Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn materion allanol a'i gwaith i godi proffil Cymru'n rhyngwladol, ac ymwneud Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiadau allanol.

31. Ar 12 Ionawr 2010, cyflwynwyd trosolwg i'r Pwyllgor o ddulliau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol o ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol. Nododd y papur ymrwymiad 'Cymru'n Un' i Amcanion Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm, gan gynnwys trwy raglen 'Cymru o Blaid Affrica'. Ym mis Mehefin 2010, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod a ganolbwyntiodd ar faterion rhyngwladol, gan gynnwys Uwchgynhadledd Datblygu Rhyngwladol Cymru o Blaid Affrica. Cafwyd tystiolaeth gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol a Chymru o Blaid Affrica yn Llywodraeth Cymru, Rhwydwaith y Sefydliadau Datblygu Rhyngwladol Bach a Chanolig yng Nghymru (SMIDOS), ac Oxfam Cymru. Tanlinellodd hyn lwyddiant y gwaith a gyflawnwyd yng Nghymru ac Affrica, a gwerth y gefnogaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â nifer o heriau, pryderon ac awgrymiadau ar gyfer gwella.

32. Ar Ddydd Rhyngwladol y Menywod, 8 Mawrth 2011, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Lywydd a chyd-sylfaenwyr 'Positive Women', elusen o Gymru sy'n gweithio i roi grym i ferched yn Swaziland sy'n dioddef o effaith HIV ac AIDS. Daeth yr Arglwydd McConnell, sy'n noddwr i Positive Women, i'r cyfarfod hefyd a siaradodd am Bartneriaeth yr Alban a Malawi a'r rôl y gallai gwledydd datganoledig ei

chwarae i fynd i'r afael â materion datblygu rhyngwladol, tlodi byd-eang ac anghyfiawnder.

33. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cafodd y Pwyllgor adroddiadau diweddaru rheolaidd hefyd gan Aelodau a gynrychiolai'r Cynulliad ar y cyrff allanol a ganlyn: Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE), y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA).

### *Dinasyddiaeth Fyd-eang*

34. Yn 2009, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ganolfannau Europe Direct a chan CILT Cymru (canolfan arbenigedd mewn dysgu iaith) am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ieithoedd tramor a hyrwyddo rhaglenni cysylltiedig yr UE. Yna, cafwyd gohebiaeth â Gweinidogion i godi nifer o faterion ynghylch y modd yr anogir pobl ifanc yng Nghymru i fod yn 'ddinasyddion byd-eang gweithgar' a byw ac i weithio dramor.

## Craffu ar waith y Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru ar Faterion Ewropeaidd ac Allanol

35. Trwy gydol y Cynulliad, cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan y Prif Weinidog ar ddatblygiadau Ewropeaidd a materion allanol sydd o arwyddocâd i Gymru. Cynhaliwyd y sesiynau craffu cyffredinol hyn oddeutu dair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor). Gwahoddwyd Gweinidogion eraill Cymru hefyd i roi tystiolaeth i ymchwiliadau penodol.

36. Mynychodd y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC y Pwyllgor am y tro olaf ym mis Rhagfyr 2009 cyn sefyll i lawr fel Prif Weinidog, ac wedyn daeth yn Gadeirydd y Pwyllgor ym mis Ionawr 2010. Parhaodd y Prif Weinidog newydd, Carwyn Jones AC, i fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd i drafod materion allanol ac Ewropeaidd tan ddiwedd y Trydydd Cynulliad (Mai 2010, Tachwedd 2010 a 15 Chwefror 2011). Mae trafodaethau diweddar wedi cynnwys y Polisi Cydlyniant, yr Adolygiad o Gyllideb yr UE, diwygio'r PAC, y sefyllfa economaidd ac ariannol gan gynnwys goblygiadau argyfwng Ardal yr Ewro i Gymru, a sut y cynrychiolir Cymru'n rhyngwladol.

## Cysylltiadau â deddfwrfeydd eraill

37. Bydd Clercod yr amryfal Bwyllgorau Ewropeaidd yn neddfwrfeydd gwledydd y DU yn cydweithio ac yn cydweithredu'n agos ar faterion craffu ac yn enwedig ar fonitro Sybsidiaredd. Bydd Fforwm y CE-DU o Gadeiryddion y pum Pwyllgor sy'n delio â materion Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig yn cyfarfod yn breifat ar sail reolaidd, a hynny fel arfer bob chwe mis, i drafod materion sydd o ddiddordeb iddynt oll.

# Blaenoriaethau i'r Pedwerydd Cynulliad

**Argymhellir y materion a ganlyn i graffu arnynt yn y Pedwerydd Cynulliad:**

**Yr Undeb Ewropeaidd**

***Cyllideb yr UE – Cynigion ar gyfer y Fframwaith Ariannol Amlflwydd o 2014***

38. Gyda chyhoeddi'r Adolygiad o Gyllideb yr Undeb Ewropeaidd ym mis Hydref 2010, gwelwyd dechrau negodiadau'r Aelod Wladwriaethau ar 'Bersbectif Ariannol' nesaf yr UE ar ôl 2013. Disgwylir i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi cynigion ar gyfer y Fframwaith Ariannol Amlflwydd nesaf ym mis **Mehefin 2011**. Mae dadl ar hyn o bryd ynghylch a fydd y fframwaith yn parhau â'r cyfnod rhaglennu saith mlynedd cyfredol, hy 2014-2020, ynteu a gaiff ei ddisodli gan gyfnod rhaglennu 10 mlynedd gyda phosibilrwydd o gynnal adolygiad canol tymor wedi pum mlynedd. Y materion allweddol fydd maint y gyllideb yn ei chyfanrwydd, a sut y rhennir y gyllideb honno rhwng y gwahanol raglenni ariannu, ee y Polisi Cydlyniant (gan gynnwys 'Cronfeydd Strwythurol'), y Polisi Amaethyddol Cyffredin, y Rhaglen Fframwaith ar gyfer Ymchwil a Datblygu Technolegol, ac ati. Bydd yn bwysig craffu ar y cynigion cyllidebol hyn a hynt y negodi.

***Y Polisi Cydlyniant***

39. Disgwylir i gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ddod gerbron yn dilyn cynigion ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd ym mis Mehefin 2011. Mae pumed Adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd ar Gydlyniant Cymdeithasol, Tiriogaethol a Chymdeithasol yn nodi'r dadleuon polisi cyffredinol, ac mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a chyrff rhanddeiliaid eraill o Gymru wedi ymateb. Dylai Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad fonitro datblygiadau gydag agweddau allweddol fel amodoldeb, y dimensiwn trefol a datblygiad amcan 'canolraddol' i ranbarthau sy'n dod allan o statws 'Cydgyfeirio'. Trafodwyd y materion hyn i gyd mewn llythyr a anfonwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor at Weinidog y DU ar 1 Mawrth 2011.[11]

40. Dylai'r ymgysylltiad cadarn â Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Cymru ym Mrwsel barhau hefyd, gan gefnogi'r dull

[11] EUR(3)-04-11: Papur 8

'Tîm Cymru' sydd wedi'i fabwysiadu hyd yma i sicrhau'r fargen orau i Gymru.

### *Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)*

41. Y PAC ar hyn o bryd yw elfen fwyaf Cyllideb yr UE a bu Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad yn ymwneud â chraffu ar gyfeiriad cynigion diwygio'r PAC yn ystod y Trydydd Cynulliad. Disgwylir i gynigion y Comisiwn ar y PAC gael eu cyflwyno yn ail hanner 2011 ac maent yn destun blaenoriaeth i'r Pedwerydd Cynulliad.

### *Rhaglenni ariannu'r UE ar gyfer ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes*

42. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch yr angen i Gymru gyfranogi ym mhob ffordd yn yr ymgynghoriadau parhaus a gynhelir gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ddatblygu rhaglenni ariannu i'r dyfodol ar gyfer ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes. Mae mynediad at arian ymchwil yn arbennig o bwysig i helpu i hybu'r capasiti ymchwilio yng Nghymru. Mae hwn yn faes pwysig sy'n gofyn am sylw parhaus. Mae argymhellion y Pwyllgor wedi'u cyplysu'n agos â gwaith craffu yn y dyfodol ar fesurau Llywodraeth Cymru i sicrhau adfywiad economaidd a chreu a gwarchod eiddo deallusol yng Nghymru ac mewn partneriaethau sy'n cynnwys prifysgolion a chwmnïau Cymreig.

### *Strategaeth Ewrop 2020*

43. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi Cyfathrebiadau ar y saith 'Menter Flaenllaw' yn Strategaeth Ewrop 2020, ac wedi dechrau cyhoeddi cynigion deddfu ar gyfer eu gweithredu. Mae mesurau llywodraethu economaidd yn agwedd bwysig ar y strategaeth, gan gynnwys casglu ynghyd Raglenni Diwygio Cenedlaethol Aelod Wladwriaethau (adroddiadau ar hynt diwygio strwythurol o dan Strategaeth Ewrop 2020) a'r Rhaglenni Sefydlogrwydd a Chydgyfeirio (rhan o'r Cytundeb ar Sefydlogrwydd a Thwf i Aelod Wladwriaethau yn Ardal yr Ewro) i ffurfio rhywbeth a elwir yn "Semester Ewropeaidd".

44. Fel man cychwyn i'r cylch newydd hwn o lywodraethu economaidd yr Undeb Ewropeaidd, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei 'Arolwg Twf Blynyddol' ym mis Ionawr. Mae'r Arolwg yn amlinellu ei ddeg blaenoriaeth polisi ar gyfer 2011. Disgwylir cyflwyno Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU ym mis Ebrill 2011. Bydd yn bwysig i'r Cynulliad asesu goblygiadau datblygiadau mewn polisi macro-economaidd ar

lefel Ewrop, a'r dull a arddelwyd gan y DU yn ei Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol ar gyfer adfer yr economi yng Nghymru a gallu cyrraedd y prif dargedau a bennwyd yn Strategaeth Ewrop 2020.

***Monitro Sybsidiaredd***

45. Roedd gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol rôl gydgysylltu bwysig yn ystod y Trydydd Cynulliad. Dylai trefniadau craffu yn y Pedwerydd Cynulliad ystyried yr angen am gydgysylltu, a'r dulliau gorau i gyflawni hyn o fewn strwythur Pwyllgorau'r dyfodol. Mae Senedd yr Alban yn ddiweddar wedi mabwysiadu strategaeth graffu Ewropeaidd i fod yn destun cynllun peilot yn y Senedd nesaf, sy'n cynnwys penodi adroddwyr UE ar ei amryfal Bwyllgorau pwnc.

46. Mae'r Pwyllgor wedi croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i roi sylwadau iddo ar gynigion Ewropeaidd, gan gynnwys cwestiynau sybsidiaredd yn arbennig, gan fod y Pwyllgor wedi cael rôl bwysig o dan Gytuniad Lisbon, fel 'senedd ranbarthol' mewn cydweithrediad â Phwyllgorau'r 'seneddau cenedlaethol'. Bu i'r Pwyllgor adolygu hynt monitro Sybsidiaredd yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth. Dylai ei gasgliadau lywio'r camau gweithredu yn y Pedwerydd Cynulliad.

***Ymateb i Flaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd a ddaw i'r amlwg***

47. Cynghorir Pwyllgor(au) sy'n gyfrifol am graffu ar faterion a chynigion yr Undeb Ewropeaidd yn y Pedwerydd Cynulliad i roi sylw i'r hyn a ganlyn:

- **Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd** – Nodi'r blaenoriaethau strategol hynny i Gymru a ddaw allan o Raglen Waith a Deddfwriaethol Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd, a gyhoeddir bob hydref fel arfer. Ystyriwyd Rhaglen Waith 2011 ddiwethaf gan y Pwyllgor ar 8 Mawrth 2011 a nododd y papur a gyflwynwyd y meysydd blaenoriaeth posibl ar gyfer gwaith craffu i'r dyfodol.[12] Gweler Atodiad A;
- **Llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd** – Mae'r arfer o wahodd Llysgennad yr Aelod Wladwriaeth sy'n ymgymryd â Llywyddiaeth Cyngor yr Undeb Ewropeaidd i gyfarfodydd yn ddull defnyddiol i ddeall hynt blaenoriaethau'r UE ac nid yw'r system driawd newydd yn effeithio ar hyn.

[12] EUR(3)-04-11: Papur 2

- **Blynyddoedd Ewropeaidd** – Hynt Blwyddyn Gwirfoddoli Ewrop 2011, a chynlluniau ar gyfer Blynyddoedd Ewropeaidd yn 2012 a thu hwnt.

**Materion Rhyngwladol ac Allanol**

48. Cytunodd Comisiwn y Cynulliad ar Strategaeth Ryngwladol i'r Pedwerydd Cynulliad ym mis Tachwedd 2010, a datblygir rhaglen waith yn unol â'i phedair thema strategol:

- cyfranogiad dinasyddion
- e-ddemocratiaeth
- craffu'n effeithiol ar y Llywodraeth
- democratiaeth gynaliadwy a thryloyw.

49. Efallai y bydd y Pwyllgor(au) sy'n gyfrifol yn y Pedwerydd Cynulliad yn dymuno craffu ar y maes gwaith hwn, a chael adroddiadau ar weithgareddau materion allanol y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn y maes cyfrifoldeb hwn. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn awyddus i waith gael ei wneud i ymchwilio i'r modd y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau datblygu rhyngwladol sydd â'u cartref yng Nghymru – enghraifft allweddol o hyn fyddai Positive Women sy'n gweithio yn Swaziland – a rhannu arferion gorau ym maes datblygu rhyngwladol, gan roi sylw i'r dull a ddilynwyd gan Bartneriaeth yr Alban a Malawi. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu dadl yn y Cyfarfod Llawn hefyd i drafod sut y gall y Pedwerydd Cynulliad gefnogi gwledydd sy'n datblygu orau.

**Gwersi a Ddysgwyd a'r Arfer Gorau**

Dylai'r Pwyllgor(au) a fydd yn gyfrifol am faterion Ewropeaidd ac allanol yn y Pedwerydd Cynulliad ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- **Gwerth yr ymagwedd strategol[13] tuag at gynllunio gwaith** – mae'r dull strategol wedi caniatáu i'r Pwyllgor ganolbwyntio'i ymdrechion ar y materion allweddol pwysicaf i Gymru, ar y cyfnod cynharaf er mwyn gallu dylanwadu arnynt, a chan ystyried beth sydd o fewn gallu Aelodau a swyddogion i'w wneud;

[13] EUR(3)-01-09: Papur 5; EUR(3)-01-01: Papur 6

- **Rôl swyddfa Brwsel** – mae cynrychiolaeth gryf ym Mrwsel yn hwyluso'r dull strategol, ac yn caniatáu casglu gwybodaeth a monitro datblygiadau. Mae'n gymorth i gysylltu â chynrychiolwyr o Gymru ym Mrwsel, gan gynnwys y pedwar Aelod o Senedd Ewrop o Gymru, a ffigyrau allweddol yn y sefydliadau, cyrff a rhwydweithiau Ewropeaidd, gan gynnwys cynrychiolwyr rhanbarthau Ewropeaidd eraill sydd wedi eu lleoli ym Mrwsel;
- **Defnydd o fideo-gynadledda** - Defnyddiodd y Pwyllgor fideo-gynadledda yn rheolaidd i gymryd tystiolaeth ffurfiol gan ffigyrau allweddol ym Mrwsel a Strasbwrg, yn ogystal â chan swyddogion Llywodraeth y DU yn Llundain, Swyddfa'r Senedd Ewropeaidd yn yr Alban, a Phrifysgolion yng ngogledd Cymru. Mae ansawdd y cyfleusterau technegol allanol yn amrywio, ac mae'r Pwyllgor wedi bod yn arbennig o ddiolchgar i Bwyllgor y Rhanbarthau am ganiatáu iddo ddefnyddio'i gyfleusterau ambell dro, gan gynnwys i ganiatáu i Bennaeth Swyddfa Ewropeaidd y Cynulliad gymryd rhan mewn cyfarfodydd.
- **Cyfarfod tairieithog** – Cyfarfod y Pwyllgor ar 15 Chwefror 2011 oedd y cyntaf i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd mewn tair iaith – i gymryd tystiolaeth yn y Ffrangeg gan Lywydd Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol, a Llywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw, rhanbarth y mae gan Gymru Femorandwm Dealltwriaeth â hi. Mae manylion y trefniadau technegol angenrheidiol ar gyfer y cyfarfod hwn wedi'u cofnodi yn y bwletin gweithdrefnau.
- **Ymweliadau â Brwsel** – nid yw defnyddio fideo-gynadledda'n disodli'n llwyr werth ymweliadau rheolaidd â Brwsel i gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad wedi cytuno i sawl ymweliad o'r fath, ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol ill dau. Gall amseriad ymweliadau beri anawsterau, gan fod hyn yn dibynnu ar i Aelodau fod ar gael y tu allan i fusnes arall y Cynulliad, ond mae'r wybodaeth a geir yn y modd hwn wedi ychwanegu'n sylweddol at ansawdd gwaith craffu'r Pwyllgor.
- **Perthynas ag Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru** - mae cyfranogiad yr Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru ym musnes y Pwyllgor wedi gwella yn ystod y Trydydd Cynulliad. Rhaid cynnal a meithrin cysylltiadau agos â'r Aelodau yn y Pedwerydd Cynulliad, nid yn lleiaf i gefnogi agwedd 'Tîm Cymru' y pedwar Aelod wrth iddynt gynrychioli buddiannau Cymru yn Ewrop. Bu

gwrthdrawiadau rhwng busnes y Cynulliad a Senedd Ewrop o hyd yn rhwystr i gyfranogiad ffurfiol, a byddai o gymorth pe gellid ystyried sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ymgysylltu o fewn amserlen fusnes y Pedwerydd Cynulliad.

- **Perthynas â Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru** – Bydd pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru'n mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o bryd i'w gilydd am weithgareddau'r Comisiwn yng Nghymru.
- **Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif** – Bu sesiynau craffu rheolaidd ar waith y Prif Weinidog, y mae ei bortffolio'n cynnwys Ewrop a Materion Allanol, yn agwedd bwysig ar waith y Pwyllgor ac mae wedi caniatáu deialog ar faterion allweddol. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn yn benodol am atborth ar gyfranogiad Gweinidogion Cymru yng nghyfarfodydd Cyngor Ewrop. Yn ogystal â'r sesiynau craffu cyffredinol gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am faterion Ewropeaidd, mae Gweinidogion eraill wedi darparu tystiolaeth i ymchwiliadau penodol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**EUR(3)-04-11: Papur 2 : 8 Mawrth 2011**

# Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2011: Prif flaenoriaethau posibl ar gyfer Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

| **Dyddiad:** | **8 Mawrth 2011** |
|---|---|

## Golwg gyffredinol

Paratowyd y papur hwn i ategu Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Bwriedir iddo gynnig rhai o'r blaenoriaethau posibl, o ran y materion Ewropeaidd, y gallai'r Pwyllgorau newydd a sefydlir gan y Pedwerydd Cynulliad eu hystyried.

Fe'i seilir ar Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2011 a gyhoeddwyd ar 27 Hydref 2010. Roedd honno'n ymwneud yn bennaf â chyfnod 2011 ond mae hefyd yn awgrymu'r cynlluniau a ragwelir ac a ystyrir ar gyfer y cyfnod 2012-2014. Bydd nifer o'r materion - megis y ddadl ynglŷn â'r Fframwaith Ariannol Amlflwydd, dyfodol Polisi Cydlyniant yr UE, dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac ati - yn parhau drwodd i 2012 ac, o bosibl, y tu hwnt i hynny, o ran y trafodaethau ffurfiol a mabwysiadu'r cynigion deddfwriaethol.

Mae'r papur hwn hefyd wedi cael ei baratoi yng nghyd-destun cylch gwaith eang o weithgareddau y mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi ymgymryd ag ef, fel y'i gwelir yn Ymagwedd Strategol y pwyllgor a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2009[1].

**Camau gweithredu i'r Pwyllgor:**

Ystyried a mabwysiadu'r papur diweddaru ynghlwm sy'n cyd-fynd ag Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ac a fydd yn sail i waith yr Aelodau yn y Pedwerydd Cynulliad.

[1] COM(2010)623 http://ec.europa.eu/atwork/programmes/docs/cwp2011_en.pdf (yn Saesneg)

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad: Ymagwedd Strategol at Faterion Ewropeaidd ac Allanol ........ 27**
**2. Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2011: golwg gyffredinol ........ 27**
2.1. Golwg gyffredinol ........ 27
2.2. Cynlluniau Strategol ar gyfer 2011 ........ 28
2.3. Cynlluniau eraill a allai fod o ddiddordeb i'r Cynulliad ........ 29
2.4. Cynigion sydd o fewn proses benderfynu'r UE ar hyn o bryd ........ 30
**3. Meysydd blaenoriaeth posibl ar gyfer Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad ........ 31**

## 1. Cyflwyniad: Ymagwedd Strategol at Faterion Ewropeaidd ac Allanol

Ym mis Ionawr 2009, mabwysiadodd y Pwyllgor ymagwedd strategol at ei waith ym maes Materion Ewropeaidd ac Allanol. Rhestrwyd pedwar maes gwaith:

- Craffu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru (gan gynnwys ymwneud Llywodraeth y Cynulliad â materion Ewropeaidd a materion allanol, a'i gwaith i gryfhau delwedd Cymru'n rhyngwladol)
- Mynd ar drywydd prif gynigion strategol Ewrop
- Monitro cynigion deddfwriaethol penodol sydd ar y gweill gan Ewrop, gan gynnwys eu goblygiadau ar gyfer sybsidiaredd
- Deall a chymryd rhan (gan gynnwys gwaith ASEau Cymru, cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, ymwneud Cynulliad Cenedlaethol Cymru â chysylltiadau allanol)

Wrth benderfynu pa faterion polisi Ewropeaidd allweddol y dylid eu blaenoriaethu, yn enwedig y maes gwaith cyntaf o'r tri (er ei fod hefyd yn effeithio ar y pedwerydd maes), bydd y Pwyllgor yn adolygu Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd bob blwyddyn, gan restru'r meysydd hynny y mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd yn gweithio arnynt yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd yn 2011. A chofio bod etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai, bwriad y papur hwn yw cynnig blaenoriaethau posibl i'r pwyllgorau newydd a sefydlir gan y Pedwerydd Cynulliad.

## 2. Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2011: golwg gyffredinol

### *2.1. Golwg gyffredinol*

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei Raglen Waith flynyddol ar gyfer 2011ar 27 Hydref 2010. Dyma'r ail Raglen Waith o dan Gomisiwn newydd Barroso, a'r gyntaf ers mabwysiadu Strategaeth Ewrop 2020 yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mehefin 2010.

Datblygwyd y Rhaglen Waith hon o fewn fframwaith y blaenoriaethau gwleidyddol a gyflwynwyd gan y Llywydd Barroso yn anerchiad Cyflwr yr Undeb a roddodd i Senedd Ewrop ym mis Medi 2010, sef

- Ymdrin â'r argyfwng economaidd ac adeiladu momentwm yr adferiad
- Adfer twf ym maes swyddi drwy gyflymu agenda diwygio Ewrop 2020
- Adeiladu ardal o ryddid, cyfiawnder a diogelwch
- Lansio trafodaethau ynglŷn â chyllideb fodern i'r UE
- Sicrhau bod yr UE yn tynnu'i phwysau ar y llwyfan byd-eang

Yn benodol, mae Rhaglen Waith 2011yn canolbwyntio'n gryf ar "gyflymu'r adferiad" a sicrhau bod strategaeth Ewrop 2020 yn bwrw gwreiddiau "fel asgwrn cefn yr ymdrechion ar lefel yr UE ac ar lefel genedlaethol i sicrhau twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol"[2].

Mae'r ddogfen yn cynnwys naratif un dudalen ar ddeg sy'n rhestru'r prif themâu a'r prif gynlluniau strategol sydd i'w gwireddu yn ystod 2011, gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn y Rhaglen Waith gyntaf o dan Gomisiwn Barroso (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010). Gyda'r ddogfen hon, ceir pedwar atodiad technegol, sy'n rhoi manylion y camau gweithredu a ragwelir ar gyfer 2011:

- Atodiad 1: rhestr o **40 o gynlluniau strategol** (deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) y disgwylir iddynt gael eu mabwysiadu **yn ystod 2011.** Trafodir y rhain yn fanwl isod - gweler yr adran "Cynlluniau Strategol ar gyfer 2011".

  *(O gymharu'r nifer â niferoedd blynyddoedd cynt, cyflwynodd y Comisiwn 34 o gynlluniau strategol yn 2010, 12 cynllun strategol yn 2009, a 26 yn 2008).*

- Atodiad 2: rhestr ddangosol o **151 o gynlluniau posibl** (o dan ystyriaeth) i'w cyflwyno yn ystod 2011(cyfanswm o 92 - gan gynnwys "pecynnau" o gynigion mewn ambell faes) ar gyfer y cyfnod 2012-2014 (cyfanswm o 59). Mae hyn yn cymharu â'r rhestr o dros 280 o gynlluniau posibl a gynhwyswyd yn rhaglen Waith 2010. Fel arfer, ymdrinnir ag amrywiaeth eang o feysydd polisi yn y rhestrau hyn.
- Atodiadau 3 a 4: rhestr o gynigion symleiddio a chynlluniau a dynnwyd yn ôl.

Fel sy'n wir am bob Rhaglen Waith flynyddol, dim ond **cynlluniau newydd ar gyfer 2011 a'r tu hwnt** y mae'r Comisiwn yn eu rhestru. Nid yw hyn yn cynnig darlun llawn o'r gweithgareddau sydd ar waith ym Mrwsel, gan fod llu o gynigion eraill yn gweithio'u ffordd drwy'r broses ddeddfwriaethol yn sgil rhaglenni gwaith blaenorol. Mae nifer o feysydd trafod polisi eraill sy'n uchel ar yr agenda wleidyddol y cyfeirir atynt yn Rhaglen Waith 2011 ond nad oes llawer o fanylion yn eu cylch, megis y dadleuon ynghylch dyfodol y Polisi Cydlyniant a dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin a ystyrir o fewn cyd-destun cynigion ar gyfer y Fframwaith Ariannu Amlflwydd yn y dyfodol (h.y. Cyllideb yr UE yn y dyfodol ar ôl 2013).

Mae *Adran 2.4* isod yn cynnwys detholiad o'r materion hyn nad oes cyfeiriad mor uniongyrchol atynt yn Rhaglen Waith 2011 ond sydd, er hynny, yn cael eu hystyried yn faterion sydd o bwys penodol i Gymru.

## *2.2. Cynlluniau Strategol ar gyfer 2011*

Mae'r 40 cynllun strategol a ddisgrifir yn Rhaglen Waith 2011 wedi'u grwpio'n bedwar maes thematig, er bod swmp y camau gweithredu (27 o'r 40 cynllun a gynigir) wedi'u cynnwys yn y maes thematig cyntaf, ar adfer twf, gan bwysleisio'r brif flaenoriaeth a roddir yn Rhaglen Waith 2011 ar adferiad economaidd:

- **Adfer twf ym maes swyddi; Cyflymu tuag at 2020** (27o gynlluniau)

  O dan y thema hon, rhestrir chwech "is-bennawd":

[2] COM(2010)623 dyfyniadau o adran 1: Cyflwyniad (tudalen 3) (yn Saesneg)

- o *Llywodraethu economaidd:* dyma faes mae'r Pwyllgor wedi'i ddilyn fel rhan o'i waith ar ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE, Adolygu Cyllideb yr UE ac Ewrop 2020. Cyhoeddodd y Comisiwn becyn o gynigion ym mis Medi 2010 fel rhan o'r broses barhaus o ddiwygio llywodraethu economaidd yr UE, a chyhoeddi'r Arolwg Twf Blynyddol cyntaf o dan Ewrop 2020 ym mis Ionawr 2011.
- o *Rheoleiddio Ariannol:* nifer o gynigion deddfwriaethol ynghylch rhagor o ddiwygiadau i'r sector ariannol gyda'r nod o osgoi ailadrodd argyfwng ariannol hydref 2008.
- o *Twf Deallus:* yn cynnwys cynnig anneddfwriaethol ynghylch **moderneiddio'r system Addysg Uwch** yn Ewrop
- o *Twf Cynaliadwy:* yn cynnwys cynnig ynghylch **Cyfarwyddeb ar Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni** i'w gyflwyno yn ail hanner 2010
- o *Twf Cynhwysol:* yn cynnwys diwygio'r **Gyfarwyddeb ar Weithwyr sy'n Gweithio mewn gwledydd eraill yn yr UE** (tua diwedd 2011), diwygio'r **Gyfarwyddeb Amser Gweithio,** a chynnig anneddfwriaethol ar ddiwygio'r rheolau cymorth Gwladol sy'n berthnasol i **Wasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol.**
- o *Diwygio'r Farchnad Sengl:* yn cynnwys pecyn meysydd awyr o gynigion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol

- **Mynd ar drywydd agenda'r dinesydd: rhyddid, diogelwch a chyfiawnder** (7 cynllun)

  Mae'r pecyn hwn yn ymwneud yn bennaf â meysydd y mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig gymhwysedd llwyr ynddynt.

- **Ewrop yn y Byd: tynnu ein pwysau ar y llwyfan byd-eang** (5 cynllun)

  Mae hyn yn cynnwys papur gwyrdd ynghylch gwella polisi ehangu'r UE a mesurau sydd wedi'u hanelu at wneud busnesau bach a chanolig yn fwy cystadleuol mewn marchnadoedd byd-eang.

- **O gyfrannu i ddylanwadu: manteisio i'r eithaf ar bolisïau'r UE** (1 cynllun)

  Mae'n bosibl mai dyma'r cynllun pwysicaf i Gymru (ac i'r UE) yn ystod 2011, sef cyhoeddi ym mis Mehefin gynigion ar gyfer dyfodol y **Fframwaith Ariannol Amlfwydd** (h.y. Cyllideb yr UE yn y dyfodol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2013). Dyma fu un o flaenoriaethau allweddol y Pwyllgor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a dyma'r cyd-destun ehangach ar gyfer yr holl ddadleuon ynghylch polisi dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, gan gynnwys meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i Gymru, megis dyfodol Polisi Cydlynant yr UE, dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin, y Rhaglen Ymchwil Fframwaith, a rhaglenni ariannu eraill mewn meysydd megis dysgu gydol oes.

## *2.3. Cynlluniau eraill a allai fod o ddiddordeb i'r Cynulliad*

Yn ogystal â'r 40 cynllun strategol, mae'r Rhaglen Waith yn cynnwys rhestr o 151 o gynlluniau posibl eraill ar gyfer y cyfnod rhwng 2011 a 2014.

Gallai nifer o'r rhain, i bob golwg, fod o ddiddordeb i Gymru, er y bydd yn gliriach ar ôl cyhoeddi'r cynigion a ydynt yn haeddu sylw manwl neu beidio.

Dyma rai ohonynt:

*Rhagwelir ar gyfer 2011:*

- **Moderneiddio Fframwaith Deddfwriaethol Caffael Cyhoeddus yr UE** - dyma fater y bydd cyrff cyhoeddus Cymru yn cadw golwg ofalus arno, e.e. mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n ystyried hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2011
- Adolygu'r sylweddau sy'n flaenoriaeth o dan y **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**
- **Strategaeth yr UE ar gyfer Gwarchod Anifeiliaid a'u Lles (2011-2015** - cynnig anneddfwriaethol
- **Cynllun Busnesau Cymdeithasol** - cyfres o gynigion deddfwriaethol ac annedfwriaethol gyda'r nod o hybu busnesau cymdeithasol (sef mentrau cymdeithasol yn ôl ein dealltwriaeth ni) yn yr UE

*Rhagwelir ar gyfer 2012-2014:*

- **Adolygu Canllawiau Cymorth Gwladol** i baratoi ar gyfer cyhoeddi Canllawiau newydd gan y Comisiwn ar gyfer y cyfnod ar ôl 2013. Bydd hynny'n cynnwys Cymorth Rhanbarthol, Rhwydweithiau Band Eang, ac Ailstwythuro Cymorth
- Pecyn o gynigion deddfwriaethol ym maes cyfreithiau **Iechyd Anifeiliaid** ac **Iechyd Planhigion**
- Pecyn o gynigion deddfwriaethol i ddiwygio'r **ddeddfwriaeth Meddyginiaeth Filfeddygol** a **Bwyd Meddyginiaethol**
- Nifer o gynigion ym maes **Polisi Morol**, gan gynnwys Dogfen Gyfathrebu am sbarduno "Twf Glas" drwy economi'r môr

## *2.4. Cynigion sydd o fewn proses benderfynu'r UE ar hyn o bryd*

Fel y soniwyd yn *adran 2.1* mae nifer o gynlluniau parhaus nad oes cyfeiriad penodol neu fanylion amdanynt yn Rhaglen Waith y Comisiwn ar gyfer 2011 oherwydd mae'r rhain naill ai'n gynigion sydd wedi'u cyhoeddi eisoes neu'n gynlluniau lle mae'r Comisiwn wedi bod yn braenaru'r tir ar gyfer cynigion deddfwriaethol y dyfodol drwy ymgynghori a thrwy gynnal trafodaethau eraill ynghylch polisïau.

Dyma'r rhai yr ystyrir eu bod o bwys arbennig i Gymru:

- **Dyfodol Polisi Cydlyniant yr UE:** trafodaeth a lansiwyd yn sgil cyhoeddi'r Pumed Adroddiad Cydlyniant ym mis Tachwedd 2010. Fel y nodwyd uchod, disgwylir cynigion deddfwriaethol ffurfiol yn ystod ail hanner 2011. Bydd y rhain yn cynnwys ffurf arfaethedig y polisi newydd, y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir wrth benderfynu pa ranbarthau sy'n gymwys ar gyfer faint o gymorth, ac ynghyd â'r ddadl ynglŷn â chyllideb yr UE drwyddi draw, syniad ynghylch lefelau'r cymorth ariannu y mae'r Comisiwn yn ceisio'u sicrhau er mwyn gwireddu'r polisi hwn.
- **Dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin:** lansiwyd y ddadl hon hefyd, fel yr uchod, yn yr hydref y llynedd drwy Ddogfen Gyfathrebu'r Comisiwn a thrwy ymgynghori ynghylch dyfodol y Polisi. Cyhoeddir y cynigion deddfwriaethol yn ail hanner 2011.

- **Dyfodol rhaglenni ariannu eraill yr UE:** megis y rhaglenni a fydd yn olynu'r Rhaglen Ymchwil Fframwaith bresennol, y rhaglen Dysgu Gydol Oes, y Rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi, a'r rhaglenni thematig amrywiol eraill. Mae'r rhain i gyd wedi bod yn destun trafodaethau ac ymgyngoriadau yn ystod 2010 ac yn ystod chwarter cyntaf 2011. Cyhoeddir cynigion deddfwriaethol yn y meysydd hyn yn ystod ail hanner 2011ac ymlaen i 2012.
- **Cynlluniau Thematig Blaenllaw Ewrop 2020:** rhoi'r saith cynllun blaenllaw a gyhoeddwyd yn ystod 2010 ac yn nechrau 2011 ar waith. Mae pob un ohonynt yn cynnwys llu o gynlluniau a chamau gweithredu sydd yn yr arfaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf.
- **Pecyn Diwygio Llaeth[3]:** fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010ac mae'n rhestru nifer o gynigion gyda'r nod o fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan Grŵp Lefel Uchel o arbenigwyr a sefydlwyd yn 2010 er mwyn ymateb i argyfwng y sector llaeth yn 2009. Mae Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion wrthi'n ystyried y cynigion deddfwriaethol, a rhagwelir y rhoddir y rhain ar waith yn 2012.
- **Pecyn Ansawdd Cynnyrch Amaethyddol:** cyhoeddwyd hwn hefyd ym mis Rhagfyr 2010 ac, ar ôl ymgynghori yn 2009 a chymryd camau paratoi, mae'r Comisiwn wedi cyflwyno pecyn o gynigion deddfwriaethol er mwyn cynorthwyo i wella ansawdd cynnyrch amaethyddol.
- **Awdurdodi Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig:** Ym mis Gorffennaf 2010, cyflwynodd y Comisiwn gynnig deddfwriaethol drafft ynghylch y newidiadau i'r rheolau a fyddai'n caniatáu i Aelod Wladwriaethau wahardd tyfu cnydau wedi'u haddasu'n enetig ar eu tir. Rhan o becyn o gynlluniau a gyflwynwyd gan y Comisiwn oedd hyn.
- **Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin:** disgwylir cynigion yn ystod ail hanner 2011, yn dilyn yr ymgynghori a fu yn ystod 2009. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw mewn adroddiad gan y Comisiwn ym mis Ebrill 2010[4].

## 3. Meysydd blaenoriaeth posibl ar gyfer Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

Ar sail y dadansoddiad uchod a chan ystyried cymwyseddau datganoledig y Cynulliad a'r gwaith yr bu Pwyllgorau'r Cynulliad yn ei wneud yn ystod y Trydydd Cynulliad, mae'r tabl isod yn rhestru nifer o feysydd a allai fod yn flaenoriaeth i'r Pedwerydd Cynulliad eu hystyried.

Dylid darllen y rhain ar y cyd ag Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, ac adroddiadau pwyllgorau perthnasol eraill, megis y Pwyllgor Cynaliadwyedd, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Menter a Dysgu.

Yn ogystal â'r rhestr hon, mae'r gwaith y bydd y Cynulliad yn ei wneud yn unol â Phrotocol Sybsidiaredd Cytuniad Lisbon. Cyflwynwyd Mecanwaith Rhybudd Cynnar lle y caiff Seneddau Cenedlaethol (ar lefel Aelod Wladwriaethau'r UE), drwy ymgynghori â'r is-wladwriaeth neu'r senedd ranbarthol berthnasol, dynnu sylw at unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch cynigion deddfwriaethol sy'n deillio o Sefydliadau'r UE.

---

[3] Gweler Gwefan Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth (yn Saesneg)
[4] Gweler Gwefan Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (yn Saesneg)

I gloi, gan mai proses barhaus yw proses creu polisïau'r UE, bydd Swyddfa UE y Cynulliad yn dal i fonitro datblygiadau yn ystod 2011 ac yn cynnig rhagor o wybodaeth a chanllawiau ynghylch blaenoriaethau newydd posibl a blaenoriaeth sy'n egino a allai fod o ddiddordeb i'r Pedwerydd Cynulliad.

**Tabl 1: Materion Ewropeaidd a allai fod yn feysydd blaenoriaeth i Bwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad yn ystod 2011 (ac o bosibl yn y cyfnod 2012-2013)**

| Mater strategol | Cam gweithredu yn yr UE | Pam y dylai fod yn flaenoriaeth i'r Cynulliad? |
|---|---|---|
| **Dyfodol y Polisi Cydlyniant** | ▪ Disgwylir cynigion deddfwriaethol yn ystod ail hanner 2011. | ▪ Parhau â gwaith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a Materion Allanol yn y maes hwn yn ystod 2009-2011.<br>▪ Mater allweddol i Gymru ac ystyried lefel bresennol y cronfeydd strwythurol (oddeutu €2 biliwn ar gyfer 2007-2013). |
| **Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y dyfodol** | ▪ Disgwylir cynigion deddfwriaethol yn ystod ail hanner 2011. | ▪ Parhau â gwaith yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystod 2010.<br>▪ Mater allweddol i Gymru ac ystyried lefel bresennol yr arian a geir drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (oddeutu €350my flwyddyn). |
| **Adolygu Cyllideb yr UE** | ▪ Cyflwyno cynigion ar gyfer Fframwaith Ariannol Amlflwydd (Mehefin 2011) ar gyfer y cyfnod ar ôl 2013. | ▪ Uniongyrchol berthnasol i'r gwaith ar y Polisi Cydlyniant, Strategaeth Ewrop 2020 a dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin.<br>▪ Goblygiadau posibl ar gyfer pob un o feysydd ariannu'r UE y mae Cymru'n elwa ohonynt. |
| **Strategaeth Ewrop 2020** | ▪ Rhoi'r saith cynllun blanllaw ar waith a gyhoeddwyd yn ystod 2010-2011.<br>▪ Rhoi'r trefniadau llywodraethu newydd ar waith i wireddu Ewrop 2020 (gan gynnwys rhoi Rhaglen Diwygio Cenedlaethol y DU ar waith, y disgwylir iddi gael ei mabwysiadu ym mis Ebrill 2011). | ▪ Mater allweddol a ddilynwyd gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn ystod 2009-2011.<br>▪ Yn uniongyrchol berthnasol i faterion allweddol eraill megis dyfodol y Polisi Cydlyniant, y Polisi Amaethyddol Cyffredin, dyfodol Rhaglen Fframwaith Ymchwil yr UE.<br>▪ Eglurhad ynghylch sut mae trosi dyheadau Strategaeth Ewrop 2020 yn weithredu yng Nghymru (ac yn y DU hefyd). |
| **Rhaglen Ymchwil** | ▪ Disgwylir cynigion | ▪ Yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Materion |

| | | |
|---|---|---|
| **Fframwith yr UE (FP8)**<br><br>*[Gellid ehangu hyn i gynnwys "rhaglenni UE" eraill sydd y tu allan i'r Polisi Cydlyniant a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin]* | deddfwriaethol tua diwedd 2011. | Ewropeaidd ac Allanol a gynhaliwyd yn y maes hwn yn ystod 2010-2011.<br><br>▪ I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru (a rhanddeiliaid eraill) yn lobïo i ddylanwadu ar siâp cynigion, gan gynnwys yn benodol sut maent yn cydweddu â chronfeydd strwythurol, a'r sgôp i feithrin gallu a chryfhau gallu Cymru i gymryd rhan yn y dyfodol. |
| **Cyfarwyddeb ynghylch Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni** | ▪ Dilyniant i Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Ewrop<br><br>▪ Bydd y Gyfarwyddeb arfaethedig yn cynnwys targedau i Aelod Wladwriaethau, yn disgrifio rôl Cynlluniau Gweithredu ynghylch Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol, ac yn diffinio offerynnau i ddatblygu'r farchnad gwasanaethau ynni a rolau cwmnïau ynni o ran hybu arbed ynni drwy bob rhan o'r gadwyn cyflenwi. | ▪ Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni Cenedlaethol ac mae gan yr awdurdodau lleol / Llywodraeth y Cynulliad bwerau cydsynio ar gyfer cynhyrchu ynni hyd at 50 Mega Watt. Fodd bynnag, mae'r diwydiant ynni'n cael ei reoleiddio ar lefel y Deyrnas Unedig gan OFGEM.<br><br>▪ Adolygu i ba raddau y gellid/byddid yn gwireddu'r camau gweithredu a gynigir yn y Gyfarwyddeb newydd yng Nghymru, ac i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru (ac y dylai) ddylanwadu ar sefyllfa'r Deyrnas Unedig wrth drafod y Gyfarwyddeb ddrafft ym Mrwsel. |
| **Diwygio'r Gyfarwyddeb Amser Gweithio** | ▪ Ar ôl methu â sicrhau cytundeb yn ystod y Comisiwn diwethaf, mae cynnig newydd yn yr arfaeth ar gyfer 4ydd chwarter 2011. | ▪ Adolygu unrhyw oblygiadau yn sgil newidiadau i drefn "eithrio" y DU yng Nghymru, yn enwedig o ran oriau gweithio gweithwyr allweddol y sector cyhoeddus. |
| **Cynigion deddfwriaethol ar gyfer Cyfreithiau newydd ym maes Iechyd Anifeiliaid ac Iechyd Planhigion** | ▪ Mae'r rhain yn y rhestr o gynlluniau dangosol ar gyfer 2012. | ▪ Mae'r maes hwn yn faes sydd wedi'i ddatganoli, ac felly, dylid ystyried unrhyw newid arfaethedig i'r cyfreithiau o ran eu heffaith bosibl ar Gymru. |
| **Pecyn Diwygio Llaeth** | ▪ Fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 201 - y cynigion wrthi'n cael eu trafod | ▪ Gan fod maes amaethyddiaeth wedi'i ddatganoli i raddau helaeth, mae arwyddocâd arbennig i effaith bosibl y cynigion ar Gymru.  Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r ddadl ehangach ynghylch diwygio'r Polisi Amaethyddol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyffredinyn y dyfodol. |
| **Pecyn Ansawdd Cynnyrch Amaethyddol** | ▪ Fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 201 - y cynigion wrthi'n cael eu trafod | ▪ Mae'r un peth yn wir am y rhain ag am y Pecyn Llaeth. |
| **Deddfwriaeth ynghylch Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig** | ▪ Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010, ac mae'r cynigion yn caniatáu i Aelod Wladwriaethau wahardd tyfu cnydau fel hyn. Mae'r cynigion wrthi'n cael eu trafod. | ▪ Mae gan Lywodraeth Cymru goncordat gyda DEFRA sy'n caniatáu iddi benderfynu ar bolisi Organebau wedi'u haddasu'n Enetig i Gymru. |
| **Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin** | ▪ Disgwylir cynigion yn ystod ail hanner 2011, yn dilyn y gwaith paratoi sydd wedi'i wneud ers 2009. | ▪ Ymatebodd Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad y Comisiwn yn 2009, gan dynnu sylw at ei phryderon am statws pysgota ar raddfa fach, sef prif natur y sector pysgota yng Nghymru. |
| **Llwybr at wasanaethau bancio sylfaenol** | ▪ Nid yw'r cynigion wedi'u cyhoeddi eto ond mae'r Comisiwn wedi dweud ei fod yn bwriadu eu cyhoeddi (yn 2011 neu 2012, mae'n debyg) fel rhan o ddiwygio'r Farchnad Sengl ac yn gysylltiedig â Llwyfan Ewrop yn Erbyn Tlodi. | ▪ Mae Tŷ'r Arglwyddi wedi tynnu sylw at y maes hwn gan ddweud bod angen ei fonitro ar ôl cyhoeddi'r cynigion, gan nad yw'n argyhoeddedig bod angen deddfwriaeth Ewropeaidd yn y maes hwn. Mae'n ddadlau mai'r Aelod Wladwriaeth sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â gwasanaethau bancio sylfaenol. Gall fod problemau penodol yng Nghymru o ran sicrhau llwybr at wasanaethau sylfaenol mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. |
| **Cyfarwyddeb ynghylch Hawliau Cleifion i gael Gofal Iechyd Trawsffiniol**<br>*[Mae'r Gyfarwyddeb hon wedi'i mabwysiadu ar lefel yr UE. Yn y dyfodol, canolbwyntir ar drawsleoli a gweithredu yn y DU/Cymru]* | ▪ Sicrhawyd cytundeb ynghylch y Gyfarwyddeb hon, a disgwylir iddi gael ei mabwysiadu'n ffurfiol yn y dyfodol agos iawn. Y cam nesaf fydd rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith yng nghyfraith y DU | ▪ Gan fod iechyd wedi'i ddatganoli, bydd angen craffu'n ofalus ar y paratoadau ar gyfer rhoi'r Gyfarwyddeb hon ar waith yn y DU. Dylid nodi bod gan Lywodraeth y DU 30 mis (o ddiwedd Ionawr 2010) i fabwysiadu deddfwriaeth genedlaethol i roi'r newidiadau a gyflwynwyd drwy'r Gyfarwyddeb ar waith.<br>▪ Nodi'r ymchwiliad a gynhaliwyd gan y pwyllgor yn ystod y Trydydd Cynulliad a ddaeth i ben yn yr adroddiad a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2009. |